# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Arthur Jenkins**

**Cartref Preswyl Arthur Jenkins**
**Heol Coed Cae Blaenafon**
**Pont-y-pŵl**
**NP4 9PP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/08/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Arthur Jenkins

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cymdeithas Tai Hafod Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 29 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 25 Mehefin 2024 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn i adolygu'r hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth a gyhoeddwyd yn ein harolygiad diwethaf. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud mewn rhai meysydd, gan gynnwys rheoli meddyginiaeth a threfniadau goruchwylio'r Unigolyn Cyfrifol. Mae'r tîm uwch-reolwyr wedi bod yn goruchwylio'r gwasanaeth yn rheolaidd ers ein harolygiad diwethaf. Dywedodd y staff wrthym fod hyn wedi sicrhau mwy o gysondeb wrth ddarparu'r gwasanaeth. Roedd adborth y staff a'r bobl am y newidiadau a wnaed yn gadarnhaol.

Mae rhai hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth yn parhau ar agor am na chymerwyd camau digonol i wella mewn amser. Gwnaethom nodi pryderon parhaus mewn perthynas â safonau'r ddarpariaeth gofal a diogelu. Mae hyn wedi effeithio ar iechyd a llesiant y bobl. Er bod gwelliannau wedi cael eu gwneud, nid yw darparwr y gwasanaeth wedi rhoi systemau a threfniadau llawn a chadarn ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu â gofal digonol gan staff cymwys. Mae hyn yn cynnwys diffyg systemau ansawdd ac archwilio effeithiol a threfniadau staffio anniogel.

## Llesiant

Mae gan y bobl rywfaint o reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd ac maent yn gwneud pethau sydd o bwys iddynt y rhan fwyaf o'r amser. Mae'r gweithwyr gofal yn cefnogi'r bobl i ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau ystyrlon sy'n gwella eu llesiant. Ar adeg ein harolygiad, daeth plant o'r ysgol leol i ymweld â'r gwasanaeth er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau pontio'r cenedlaethau, a gafodd effaith gadarnhaol amlwg ar hwyliau'r bobl. Caiff y bobl eu hannog i gynnal cydberthnasau cryf â theulu a ffrindiau, a all ymweld â'r gwasanaeth ar unrhyw adeg. Mae'r tîm uwch-reolwyr a'r gweithwyr gofal yn cynnal cydberthnasau cadarnhaol ag anwyliaid y bobl ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt yn rheolaidd.

Nid yw'r bobl yn cael eu cefnogi'n gyson i gyflawni llesiant emosiynol a chorfforol. Mae'r prosesau rheoli meddyginiaethau wedi gwella'n sylweddol, ac mae'r bobl yn cael eu meddyginiaeth yn unol â'u presgripsiynau ar y cyfan. Mae cynlluniau personol y bobl wedi cael eu diwygio i gynnwys canlyniadau llesiant ystyrlon. Caiff anghenion llesiant emosiynol a chorfforol y bobl eu hamlinellu yn eu cynlluniau personol ar y cyfan, ond gwnaethom nodi bod gwybodaeth bwysig ar goll ar gyfer rhai o'r bobl. Mae hyn yn peri risg y bydd y bobl yn cael gofal amhriodol. Nid yw'r bobl bob amser yn cael y gofal a'r cymorth cywir, mewn modd amserol, i gadw'n iach ac yn hapus. Ni chaiff gofal ei ddarparu yn unol ag anghenion unigol y bobl bob amser, ac ni chaiff ymyriad clinigol bob amser ei geisio pan fydd eu hiechyd yn gwaethygu. Mae hyn wedi parhau i gael effaith sylweddol ar lesiant rhai o'r bobl.

Nid yw'r bobl bob amser yn ddiogel. Nid yw'r protocolau diogelu yn ddigon cadarn hyd yma i sicrhau bod y bobl yn cael eu diogelu rhag esgeulustod a niwed cymaint ag sy'n ymarferol bosibl. Roedd y niferoedd anniogel parhaus o staff yn y lleoliad ar adeg ein harolygiad yn golygu nad oedd bob amser digon o weithwyr gofal ar y safle i oruchwylio'r gwasanaeth yn briodol a darparu gofal diogel i'r bobl mewn modd amserol. Rydym yn deall bod camau wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â phryderon am niferoedd y staff yn dilyn ein harolygiad diweddaraf.

## Gofal a Chymorth

Caiff y bobl eu trin ag urddas a charedigrwydd yn gyson gan dîm cyfarwydd o staff. Mae'r gweithwyr gofal yn ymrwymedig i'w rolau ac yn gofalu'n fawr am y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i ryngweithio â nhw mewn modd ystyrlon. Rhoddodd y bobl adborth cadarnhaol am y gofal y maent yn ei gael, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hoffi eu gweithwyr gofal.

Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau y darperir gofal a chymorth yn gyson mewn ffordd sy'n diogelu, yn hyrwyddo ac yn cynnal iechyd a diogelwch unigolion o hyd. Mae'r prosesau rheoli meddyginiaethau wedi gwella'n sylweddol. Mae gan ddarparwr y gwasanaeth bellach drefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau'r bobl yn cael eu storio a'u rhoi'n ddiogel. Mae cynlluniau personol y bobl wedi gwella ers ein harolygiad blaenorol. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn ar y cyfan, sy'n golygu eu bod wedi'u teilwra'n benodol i'r unigolyn. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys hoff bethau a chas bethau'r bobl a lefel dda o'u hanes cymdeithasol, ac mae'r gweithwyr gofal yn defnyddio'r wybodaeth hon i deilwra eu cymorth emosiynol. Nid yw rhai o'r cynlluniau personol yn cynnwys anghenion iechyd digonol na manylion asesiadau risg o hyd, sy'n golygu nad yw'r staff gofal bob amser yn gallu cael gafael ar anghenion llesiant corfforol presennol y bobl. Mae hyn yn peri risg y bydd y bobl yn cael gofal amhriodol ac aneffeithiol. Mae'r risg hon yn arbennig o berthnasol i weithwyr gofal asiantaeth nad ydynt fel arfer yn gweithio yn y gwasanaeth ac nad ydynt yn gyfarwydd ag anghenion y bobl.

Ni cheisir cyngor meddygol na chymorth proffesiynol yn brydlon bob amser o hyd pan fydd iechyd corfforol unigolyn yn dirywio. Mae hyn wedi golygu bod y bobl yn dioddef poen am gyfnodau hir o amser. Nid yw'r broses gofnodi ddyddiol yn gadarn. Gwnaethom nodi rhai bylchau yn y cofnodion dyddiol, gan gynnwys y cofnodion bwyd a hylif ar gyfer y bobl sy'n wynebu risg sylweddol o golli pwysau. Ni chaiff canlyniadau ymyriadau clinigol neu atgyfeiriadau at weithwyr gofal iechyd proffesiynol eu cofnodi bob amser. Methodd archwiliad ansawdd mewnol â nodi hyn yn brydlon, gan olygu bod y bobl wedi cael gofal anghyson. Felly, bydd yr hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth hwn yn parhau ar agor gan nad ydym yn hyderus bod y bobl yn cael gofal a chymorth priodol pan fydd eu hangen arnynt. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth weithredu ar unwaith i fynd i'r afael â hyn.

Nid yw darparwr y gwasanaeth yn darparu gwasanaeth sy'n sicrhau'n gyson fod y bobl yn cael eu hamddiffyn rhag esgeulustod a thriniaeth amhriodol o hyd. Er na wnaethom nodi unrhyw bryderon mewn perthynas â niwed neu gamdriniaeth fwriadol, mae'r bobl yn wynebu risg ddiangen o hyd. Ar adeg ein harolygiad, ni allai darparwr y gwasanaeth ddangos sut roedd yn pennu niferoedd digonol o staff. Felly, ni chawsom sicrwydd bod y bobl yn cael eu cefnogi gan nifer addas o weithwyr gofal i'w cadw'n ddiogel. Rydym wedi cael sicrwydd bod adnodd dibyniaeth newydd wedi cael ei roi ar waith ers ein harolygiad, sydd wedi arwain at adolygiad o niferoedd y staff. Byddwn yn ystyried hyn yn ystod ein harolygiad nesaf.

Er bod darparwr y gwasanaeth wedi rhoi sicrwydd i ni fod y mesurau diogelu wedi cael eu gwella, roedd nifer o ddigwyddiadau diogelu o bwys eraill wedi codi ers ein harolygiad

blaenorol. Gwnaethom hefyd nodi nad oedd rhai digwyddiadau o natur ddiogelu wedi cael eu trin yn unol â phrotocolau diogelu. Bydd yr hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth hwn yn parhau ar agor, ac mae'n rhaid i ddarparwr y gwasanaeth weithredu ar unwaith i fynd i'r afael â hyn.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi rhoi trefniadau llywodraethu cadarn ar waith o hyd er mwyn helpu i redeg y gwasanaeth yn ddidrafferth ac yn effeithiol. Mae hyn wedi atal y bobl rhag cyflawni eu canlyniadau gorau posibl. Nodwn fod rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud yn y maes hwn, gan gynnwys presenoldeb cyson y tîm uwch-reolwyr i oruchwylio'r gwasanaeth ers ein harolygiad diwethaf. Mae'r tîm uwch-reolwyr wedi cynnal deialog agored â'r rheoleiddiwr gofal (Arolygiaeth Gofal Cymru) a'r Awdurdod Lleol, gan ddarparu diweddariadau rheolaidd am y gwelliannau a wnaed a phan fydd pethau'n mynd o chwith yn rheolaidd. Mae'r gwasanaeth wedi gwneud cryn ymdrech ac wedi defnyddio llawer o adnoddau i wneud gwelliannau. Fodd bynnag, nid yw darparwr y gwasanaeth wedi rhoi prosesau digon cadarn ar waith o hyd i sicrhau bod y gofal yn cael ei ddarparu'n gyson ac mewn modd dibynadwy. Methodd archwiliad ansawdd mewnol â nodi safonau gofal a threfniadau cadw cofnodion digonol, ac mae hyn wedi effeithio ar iechyd a llesiant y bobl. Mae niferoedd anniogel o staff a methiant i ddilyn protocolau diogelu cadarn yn gyson wedi peri risg ddiangen i'r bobl. Nid oedd yr uwch-reolwr y gwnaethom siarad ag ef yn gwbl ymwybodol o ddigwyddiadau diogelu a oedd wedi digwydd, sy'n golygu na allwn fod yn hyderus bod y bobl sy'n goruchwylio'r gwasanaeth yn ymwybodol o'r risgiau a berir i'r bobl. Felly, ni allwn fod yn hyderus bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu â gofal, cymhwysedd a medrusrwydd digonol i sicrhau llesiant y bobl, a bydd yr hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth hwn yn parhau ar agor. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth weithredu ar unwaith i fynd i'r afael â hyn.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi gwella ei drefniadau ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth. Mae'n cynnal ei ymweliadau rheoliadol ac yn llunio adroddiadau yn amlach. Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi goruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg o ddydd i ddydd yn effeithiol, yn absenoldeb rheolwr. Mae'r ddyletswydd gonestrwydd wedi cael ei goruchwylio'n effeithiol sy'n golygu bod y bobl a'u perthnasau wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am bethau sydd wedi mynd o chwith.

Rhoddodd y gweithwyr gofal adborth gwell i ni. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn gwerthfawrogi presenoldeb cyson y tîm uwch-reolwyr yn y gwasanaeth ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n well yn eu rolau. Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo bod dull gweithredu mwy cyson wedi gwella safon y gofal a ddarperir. Mae cydymffurfiaeth o ran hyfforddiant wedi gwella, sy'n golygu bod y gweithwyr gofal wedi cael hyfforddiant digonol i ymgymryd â'u rolau yn ddiogel ar y cyfan. Mae'r broses o recriwtio gweithwyr gofal asiantaeth yn fwy cadarn a diogel. Mae gweithwyr gofal asiantaeth yn ymgymryd â chyfnod sefydlu priodol yn y gwasanaeth ar y cyfan, er mwyn sicrhau eu bod yn gyfarwydd ag anghenion y bobl cyn eu cefnogi.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 21 | Ni all y bobl fod yn siŵr y byddant yn cael gofal a chymorth cyson. | Heb Gyflawni |
| 26 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi rhoi mesurau a phrotocolau cadarn ar waith i sicrhau y caiff y bobl eu diogelu rhag niwed ac esgeulustod. | Heb Gyflawni |
| 6 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau y caiff y gwasanaeth ei ddarparu â gofal, cymhwysedd a sgìl digonol, fel y gall y bobl sicrhau eu llesiant. | Heb Gyflawni |
| 66 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol oruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli er mwyn sicrhau bod y bobl yn ddiogel ac yn sicrhau eu llesiant. | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| 58 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi rhoi trefniadau cadarn ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau unigolion yn cael eu storio a'u rhoi'n ddiogel. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 36 | Nid yw'r gweithwyr gofal yn cael eu goruchwylio mor aml ag sy'n ofynnol bob amser er mwyn bodloni cydymffurfiaeth rheoleiddio. | Adolygwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/09/2024